# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 11 Gorffennaf 2012**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Pleidleisiau a Thrafodion
(79)

### 1. Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd cwestiynau 1– 4, 6 – 12 ac 14 – 15. Cafodd cwestiynau 5 ac 13 eu tynnu yn ôl.

### 2. Cwestiynau i'r Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth

Dechreuodd yr eitem am 14.10

Gofynnwyd cwestiynau 1– 7, 10 – 11 ac 13 – 15. Cafodd cwestiynau 7 ac 14 eu grwpio. Cafodd cwestiynau 8, 9 ac 12 eu tynnu yn ôl. Atebwyd cwestiynau 6 ac 13 gan y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd.

**Cwestiwn Brys**

Dechreuodd yr eitem am 14.56

**Mick Antoniw (Pontypridd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad brys am y goblygiadau i Remploy yng Nghymru yn sgîl datganiad Maria Miller, Gweinidog Llywodraeth y DU dros Bobl Anabl, am benderfyniad Bwrdd Remploy.

### 3. Datganiad gan y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth: Adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Ddinas-ranbarthau

Dechreuodd yr eitem am 15.05

### 4. Dadl ar ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i'r cyfraniad a wneir gan fferyllfeydd cymunedol i wasanaethau iechyd yng Nghymru

Dechreuodd yr eitem am 15.47

**NDM5033 Mark Drakeford (Gorllewin Caerdydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar ei ymchwiliad i'r cyfraniad a wneir gan fferyllfeydd cymunedol i wasanaethau iechyd yng Nghymru, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Mai 2012.

Noder: Gosodwyd ymateb y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Gorffennaf 2012.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Datganiad gan y Llywydd**

Cyhoeddodd y Llywydd fod Darren Millar wedi ennill balot yr Aelodau i gyflwyno cynnig ar gyfer deddfwriaeth. Yn unol â Rheol Sefydlog 26.91, caiff Darren Millar, felly, geisio cytundeb y Cynulliad i gyflwyno Bil arfaethedig Aelod ynghylch Ardoll Gwm Cnoi.

**5. Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Deisebau ar reoli sŵn o dyrbinau gwynt**

Dechreuodd yr eitem am 16.38

**NDM5036 William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Deisebau ar Reoli Swn Tyrbinau Gwynt, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 30 Mai 2012.

Noder: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i’r adroddiad ar 4 Gorffennaf 2012.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**6. Dadl Plaid Cymru**

Dechreuodd yr eitem am 17.19

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a’r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM5035 Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i archwilio modelau eraill dielw o berchnogaeth dros y rhwydwaith rheilffyrdd sy’n esgor ar y manteision mwyaf posibl i’r cyhoedd ac i deithwyr.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 33 | 4 | 12 | 49 |

**Derbyniwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyfnod Pleidleisio**

Dechreuodd y Cyfnod Pleidleisio am 18.07

**7. Dadl Fer**

Dechreuodd yr eitem am 18.09

**NDM5034 Paul Davies (Preseli Sir Benfro):** Anrhydeddu ein Harwyr – Gwarchod Cofebau Rhyfel yng Nghymru

Daeth y cyfarfod i ben am 18:30

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, ddydd Mawrth, 17 Gorffennaf 2012**